

Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin

Tachwedd 2021

UCAC | yr undeb sy'n diogelu athrawon a darlithwyr Cymru

Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin

Mae UCAC yn undeb sy'n cynrychioli athrawon, arweinwyr ysgol, tiwtoriaid a darlithwyr ym mhob sector addysg ledled Cymru.

1. Y targed deng mlynedd

Mae UCAC yn llwyr gefnogol i ddatganiad yr awdurdod eu bod am sicrhau fod Sir Gaerfyrddin yn sir lle mae'r Gymraeg yn iaith fyw, ffyniannus a bywiog mewn cymunedau dwyieithog, cryf a chynaliadwy. Mae dyhead Sir Gaerfyrddin i sicrhau twf sylweddol mewn addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg, i gynyddu nifer y bobl o bob oed sy'n dod yn rhugl mewn Cymraeg, Saesneg ac ieithoedd eraill i'w ganmol yn fawr. Mae hon yn nod clodwiw yn ei hunan, ac yn un a ddylai gyfrannu at lwyddiant Llywodraeth Cymru wrth anelu at filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Mae UCAC yn cytuno gydag egwyddorion ac amcanion yr awdurdod wrth weithio tuag at gyflawni'r uchelgais. Mae ffafrio ac argymell trochi fel y norm yn y blynyddoedd cynnar, a phwysleisio a hyrwyddo dilyniant ieithyddol 'uchelgeisiol' yn dilyn hynny, yn sail gadarn ar gyfer y twf a fwriedir.

Rhaid canmol bwriad yr awdurdod i hyrwyddo manteision amlieithrwydd a'r strategaeth o sicrhau fod pob dysgwr fod wedi caffael dwy iaith gyntaf wrth gwblhau cyfnod yn yr ysgol gynradd. Cytunwn yn gryf gyda'r egwyddor i drin y Gymraeg fel un continwmm dysgu neu un llwybr dilyniant a symud pob ysgol ar hyd y continwmm iaith ar lefel briodol yr her. Gweler pwysigrwydd mabwysiadu dull rhagweithiol o ymdrin â system categoraidd ieithyddol ysgolion, fel y gall cynnydd ysgolion ar hyd y continwmm gael ei osod mewn cyd-destun priodol.

Gellir canmol hefyd bwriad yr awdurdod i gynnal addysg Gymraeg i bob dysgwr o fewn pellter teithio rhesymol i'w cartrefi ac, yn y pen draw, o fewn eu dalgylchoedd eu hunain. Gwerthfawrogrir hefyd ymdrechion yr awdurdod i ddatblygu adnoddau ar lein ac i ymestyn gwaith y canolfannau iaith i hwyr ddyfodiaid.

Gwerthfawrogrwn y ffaith fod y weledigaeth wedi'i gosod o fewn cyd-destun polisi/deddfwriaethol ehangach, ac o fewn cyd-destun cymunedol a theuluol, y tu hwnt i'r ysgol.

Mae'r weledigaeth yn glir ac yn gadarn, ac mae'r penderfyniad i'w gwireddu i'w deimlo'n gryf. Mae hynny i'w groesawu'n fawr iawn, fel y mae'r bwriad clir i ragori ar ystod uchaf y targed a osodwyd gan Lywodraeth Cymru.

2. Deilliant 1 – Mwy o blant Meithrin/3 oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg

Os ydym wedi dehongli'n gywir, rydym yn croesawu'r nod o gyflwyno'r holl ddarpariaeth cyn-ysgol a gofal plant yn ddwyieithog o fewn y cynllun 10 mlynedd - os mai ystyr hynny yw darpariaeth drochi sy'n sicrhau dwyieithrwydd i'r plant. Ond rhaid nodi bod y geiriad yn amwys ac o bosib yn gamarweiniol. Yn sicr, ni fyddem am weld yr holl ddarpariaeth yn ddarpariaeth 'ddwyieithog'; darpariaeth drochi yw'r ffordd ymlaen a hyderwn mai dyna fwriad yr awdurdod.

Os felly, mi ddylai hynny fod yn bwerus o ran y nod o gynyddu'r pontio rhwng y grwpiau meithrin a'r Cyfnod Sylfaen cyfrwng Cymraeg a thu hwnt. O ran hyn, byddai data gwaelodlin a chmau cynnydd yn ddefnyddiol dros ben.

Croesawn y bwriad i gydweithio gyda chyrff a mudiadau eraill megis Mudiad Meithrin a Dechrau'n Deg. A oes cyrff eraill y gellid eu henwi? A oes sylw'n cael ei roi i ddigonolrwydd gofalmwr plant sy'n gallu siarad Cymraeg?

Cymeradwyir yr amcan i gynyddu'r ffynonellau o wybodaeth i rieni a gofalmwr am addysg Gymraeg. Caiff y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd ei chrybwyll, ond a oes cysylltiadau gyda'r Bwrdd Iechyd hefyd, ac yn arbennig felly Ymwelwyr Iechyd? Maent yn ffordd effeithiol iawn o ledaenu gwybodaeth am leoliadau anffurfiol Cymraeg ar gyfer rhieni a phlant bach megis Cylchoedd Ti a Fi, sy'n gallu agor y drws at ddarpariaeth Gymraeg bellach ar ôl dwy oed, megis y Cylchoedd Meithrin. Bydd angen nodi sut y bwriedir hyrwyddo'r ddarpariaeth Dechrau'n Deg Gymraeg yn ogystal.

Gallai ymestyn yr ystod oedran ar gyfer ysgolion penodol fod yn gam positif iawn, gan ymestyn i gynnwys plant iau. Os felly, pwyswn ar yr awdurdod i roi sylw i ofal cofleidiol Cymraeg cyfleus sy'n cyd-fynd yn hwylus â'r ddarpariaeth yn yr ysgolion.

Er bod y bwriadau'n gymeradwy, byddai'n dda gweld camau gweithredu mwy penodol yn rhan o'r Cynllun terfynol, ynghyd ag amserlen a chymau cynnydd, gan gynnwys rhai meintiol. Byddai data a mapio'r ddarpariaeth gyfredol, ac unrhyw fylchau amlwg, yn rhan greiddiol o'r gwaith hwnnw. Mae'n awdurdod sy'n ddaearyddol fawr, ac yn ieithyddol amrywiol, felly mae angen i'r dadansoddiad o'r sefyllfa rhoi mwy o flas o'r sefyllfa, a'r cynigion am newid, ar lefel islaw'r awdurdod cyfan.

3. Deilliant 2 – Mwy o blant dosbarth derbyn/5 oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg

Mae nifer o'r strategaethau hyn yn debyg i'r rheini a gyflwynwyd dan ddeilliant 1 ac y mae UCAC yn ail leisio ein sylwadau ar hyn, gan gynnwys yr angen am ddata, mapio a dadansoddi ar lefel leol, gyda chynigion am weithredu mwy penodol. Yr ydym fel undeb yn gefnogol i amcanion ychwanegol yr awdurdod i gyflawni'r deilliant hwn.

Cytunwn gyda'r amcan o gefnogi ysgolion cyfrwng Saesneg i ddatblygu darpariaeth y Cyfnod Sylfaen Cymraeg. Credwn ei fod yn fuddiol darparu cymorth ac arweiniad i ysgolion drwy dîm Athrawon Datblygu'r Gymraeg

Cytunwn gyda'r bwriad o ddarparu hyfforddiant iaith ddwys i'r holl staff ar draws pob cyfnod allweddol yn ogystal â hyfforddiant sgiliau iaith bynciol. Mae'r ymdrechion i sicrhau profiadau cadarnhaol o ddysgu iaith i rieni a gwarcheidwaid i'w galluogi i gefnogi eu plant i ddysgu Cymraeg yn yr ysgol ac i helpu i atgyfnerthu eu dysgu gartref yn allweddol bwysig.

Cymeradwywn yn fawr y bwriad o ran datblygiadau pellach i gefnogi hwyrdyfodiaid, gan gynnwys y Ganolfan Iaith newydd.

4. Deilliant 3 – Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o'u haddysg statudol i un arall

Credwn fod cadw disgyblion o fewn y sector cyfrwng Cymraeg yn arbennig o bwysig, h.y. y bydd disgyblion sy'n mynychu lleoliad cyfrwng Cymraeg yn y cyfnod cynradd yn cael eu hannog a bod disgwyl iddynt barhau â hyn wrth drosglwyddo i gyfnodau allweddol dilynol.

Mae'n dda felly gweld gweledigaeth yr awdurdod fod pob disgybl yn parhau i wella'i sgiliau iaith wrth drosglwyddo o un cam o addysg statudol i'r nesaf.

Cytunwn fod parhau i symud ysgolion cynradd ar hyd y continwmm ieithyddol, ynghyd â chryfhau'r cysylltiadau gyda'r ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg perthnasol, yn debygol o annog a hwyluso dilyniant. Rydym yn cyd-fynd yn ogystal â'r bwriad o wella safon y wybodaeth a ddarperir i deuluoedd a bod yn llawer mwy rhagweithiol yn hyn o beth.

Croesewir y protocol sy'n amlinellu disgwyliadau y bydd dysgwyr sydd wedi dilyn y rhaglen iaith Gymraeg 1af (h.y. hyd at gyflwyno un continwmm Cymraeg) yn yr ysgol gynradd yn parhau gyda'r rhaglen hon wrth drosglwyddo i'r cyfnod uwchradd.

Mae cynlluniau'r awdurdod ar gyfer hwyrdyfodiaid i'w croesawu hefyd wrth i'r awdurdod anelu i sicrhau bod pob disgybl sy'n hwyrdyfodiad i Sir Gaerfyrddin yn dod yn ddwyieithog drwy ddarparu addysg drochi – ar lefel gynradd ac uwchradd. Croesawn y buddsoddiad mewn Canolfan Iaith newydd a'r rhaglenni gloywi iaith ar gyfer disgyblion o bob oedran. I'w canmol hefyd yw cynlluniau'r awdurdod i ddarparu datblygiad proffesiynol i wella sgiliau athrawon a staff ysgol i'w galluogi i addysgu'n ddwyieithog yn yr ystafell ddosbarth a'r tu allan iddi.

Croesawn hefyd yr ymdrechion i wella sgiliau Cymraeg rhieni.

Unwaith eto, teimlwn y byddai'r adran hon yn elwa'n sylweddol o gyflwyno'r data cyfredol ynghylch dilyniant a throsglwyddo, a hynny'n sail ar gyfer targedau twf, gyda dadansoddiad lleol (fesul ysgol). Heb hynny, mae'n anodd barnu effaith tebygol y cynigion.

5. Deiliant 4 – Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg

Cefnogwn y cynigion yn yr adran hon, gan gynnwys yr amcan i ddatblygu'r cwricwlwm ac i gynyddu nifer y dysgwyr sy'n dilyn opsiynau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ac, yn y pen draw, mwy o gynnydd mewn dysgwyr sy'n dilyn cymwysterau yn 16 oed.

Cytunwn â chydweithio gyda phartneriaid eraill megis cyflogwyr ac addysg uwch er mwyn hyrwyddo dwyieithrwydd fel sgil allweddol ar gyfer addysg bellach, addysg uwch, prentisiaethau a byd gwaith. Yn sicr mae angen hyrwyddo llwybrau cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog nid yr unig ar gyfer y sawl sy'n aros o fewn ysgolion yr awdurdod ond yn ogystal ar gyfer y sawl sy'n symud i'r sector addysg bellach. Bydd hyn yn sicr yn gofyn am gydweithio gyda'r sefydliadau perthnasol.

Credwn fod yr amcan o hyrwyddo defnydd gydol oes o'r Gymraeg drwy ddatblygu pobl ifanc fel modelau rôl a mentoriaid i'w groesawu.

Mae diffyg data gwaelodlin, a hynny fesul ysgol, yn nodwedd o'r adran hon ac yn rhywbeth y pwyswn ar yr awdurdod i'w ddarparu yn fersiwn terfynol y Cynllun. Yn deillio o hynny, byddai angen gweld targedau meintiol ar gyfer cynnydd dros gyfnod y Cynllun.

6. Deiliant 5 – Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol yn yr ysgol

Mae UCAC yn cydnabod defnydd yr awdurdod o'r Siarter Iaith wrth anelu at wireddu'r deiliant hwn ac yn cefnogi hyn ac unrhyw strategaethau perthnasol eraill, megis Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid, yr Urdd, Mentrau Iaith a Chlybiau Ffermwyr Ifanc.

Cytunwn yn llwyr gyda bwriad yr awdurdod i fapio'r cyfleoedd presennol sydd ar gael i blant oedran ysgol ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth ac i ehangu hyn ymhellach.

Cydnabyddir hefyd ymdrechion yr awdurdod i weithio gyda cholegau Addysg Bellach i sicrhau bod darpariaeth Gymraeg ar draws pob maes dysgu yn cael ei gynnig, gan gynnwys prentisiaethau.

Mae UCAC yn falch o weld y bydd yr awdurdod yn parhau i weithio gyda chyflogwyr ac addysg uwch i hyrwyddo dwyieithrwydd fel sgil allweddol ar gyfer byd gwaith a bywyd gydol oes.

7. Deiliant 6 – Cynnydd yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol

Mae'n braf gweld fod yr awdurdod yn anelu at sicrhau bod darpariaeth deg ar gyfer pob dysgwr ag ADY ym mhob lleoliad a gwasanaeth ac yn parhau i ddatblygu system ddwyieithog i ymateb i'r agenda diwygio ADY.

Mae'n addawol gweld fod yr awdurdod am weithio gyda Thîm Ysgolion/Unedau Arbennig a Chymorth Ymddygiadol i ddatblygu darpariaeth ddwyieithog ymhellach, ac i ddatblygu sgiliau Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol ymhellach i gefnogi dysgwyr.

Croesewir y ffaith fod yr awdurdod yn gweithio gydag ysgolion ag unedau arbennig i ddatblygu darpariaeth ddwyieithog i sicrhau bod dysgwyr ag anghenion ychwanegol cymhleth yn gallu cael gafael ar ddarpariaeth a chymorth dwyieithog.

Awgrymwn fod angen cyfeirio at bontio cynradd/uwchradd a hefyd at bontio o'r uwchradd i'r camau nesaf o addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth gan fod gofynion y Ddeddf yn darparu ar gyfer grŵp oedran 0-25, gyda phwyslais arbennig ar gyfnodau pontio.

Er y byddai arbenigedd o fewn y sir yn ddelfrydol, gellir hefyd ystyried elfennau o ddarpariaeth ac arbenigedd traws-ffiniol, o bosib ar sail cydweithio rhanbarthol. Efallai y byddai'n haws darparu rhai elfennau o'r ddarpariaeth a'r gwasanaethau Cymraeg ar lefel ddaearyddol ehangach.

Unwaith yn rhagor, byddai rhagor o ddata a dadansoddiad lleol wedi bod yn fuddiol. Er enghraifft, byddai'n dda gweld crynodeb o'r hyn a ddysgwyd o ganlyniad i'r 'gweithgaredd map a bwlch'.

8. Deiliant 7 – Cynnydd yn nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu Cymraeg (fel pwnc) a thrwy gyfrwng y Gymraeg

Heb sicrhau y gellir cynyddu nifer y staff sy'n gallu dysgu'r Gymraeg fel pwnc, a/neu sy'n gallu dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, mae'n deg dweud na fydd unrhyw obaith cyrraedd at y deilliannau eraill; mae'r Deiliant hwn yn gonglfaen ar gyfer popeth arall yn y Cynllun.

Rydym yn cydnabod na all yr awdurdod ddatrys y broblem hon ar ei phen ei hun, a bod cynyddu'r gweithlu cyfrwng Cymraeg yn ddibynnol i raddau helaeth ar gynlluniau cenedlaethol, yn ogystal ag, i ryw raddau, rhanbarthol. Yn sicr, bydd angen gweithredu mewn partneriaeth i sicrhau'r dulliau gweithredu mwyaf effeithiol.

Nodwn y gwaith sydd eisoes wedi digwydd o fewn y sir, a'r gwaith y bwriedir ei gyflawni drwy gynlluniau sabothol a rhaglen o Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus i ddarparu'n hyblyg ar gyfer anghenion hyfforddi i gefnogi gweithredu'r Cynllun. Bydd hyn oll yn allweddol i sicrhau'r cynnydd angenrheidiol yn niferoedd y staff sy'n gallu dysgu'r Gymraeg fel pwnc neu sy'n gallu dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Cytunwn fod angen parhau â ffocws strategol yn y maes hwn, gan adnabod blaenoriaethau ar gyfer twf a chynnydd.

Byddai'n ddefnyddiol gweld mwy o ddadansoddiad ystadegol yn y Cynllun o ran lefelau sgiliau gweithlu addysg y sir (penaethiaid/athrawon/cynorthwyyr) mewn perthynas â'r Gymraeg. Byddai dadansoddiad o'r fath yn sail ar gyfer gosod targedau cynnydd penodol i gyd-fynd â thargedau Llywodraeth Cymru dan ei strategaeth Cymraeg 2050. Mae'n amlwg bod yr awdurdod yn casglu'r data trwy ei awdit Sgiliau Iaith Gymraeg, a hynny'n flynyddol - sydd i'w groesawu'n fawr. Ond collwyd cyfle i gryfhau'r Cynllun trwy gynnwys data a dadansoddiad o'r awdit, a defnyddio hynny i gynllunio twf mewn ffordd fesuradwy dros gyfnod y Cynllun.



UCAC
Undeb
Cenedlaethol
Athrawon
Cymru



Prif Swyddfa **UCAC**, Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2EU

ffôn: 01970 639950 | ffacs: 01970 626765 | ucac@ucac.cymru

 facebook.com/AthrawonCymru  twitter.com/AthrawonCymru